# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU
# NOTICE OF AMENDMENTS

## Cyflwynwyd ar 2 Mawrth 2026
## Tabled on 2 March 2026

# Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)
# Development of Tourism and Regulation of Visitor Accommodation (Wales) Bill

**Samuel Kurtz** **105**

Page 3, after line 8, insert a new section—

**'[ ] Report on the development of tourism in Wales**

(1) The Welsh Ministers must prepare and publish a report setting out the steps the Welsh Ministers have taken, or intend to take, to promote the development of tourism in Wales.

(2) The Welsh Ministers must—

(a) publish a report under subsection (1) by no later than 1 April 2027, and

(b) lay the report before Senedd Cymru.

(3) A report published under this section must include an assessment of—

(a) the impact of the requirements specified in section 66(2BB)(d) of the Local Government Finance Act 1988 on providers of self-contained self-catering accommodation in Wales, and

(b) alternative minimum letting periods to those specified in that provision.'.

Tudalen 3, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Adroddiad ar ddatblygiad twristiaeth yng Nghymru**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad sy'n nodi'r camau y mae Gweinidogion Cymru wedi eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i hybu datblygiad twristiaeth yng Nghymru.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi adroddiad o dan is-adran (1) heb fod yn hwyrach na 1 Ebrill 2027, a

(b) gosod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru.

(3) Rhaid i adroddiad a gyhoeddir o dan yr adran hon gynnwys asesiad o—

(a) effaith y gofynion a bennir yn adran 66(2BB)(d) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ar ddarparwyr llety hunanddarpar hunangynhwysol yng Nghymru, a

(b) cyfnodau gosod eiddo gofynnol amgen i'r rhai a bennir yn y ddarpariaeth honno.'.

**Samuel Kurtz** **106**

Section 60, page 38, leave out lines 11 to 12 and insert—

'( ) The following provisions of this Act come into force on the day after the day on which this Act receives Royal Assent—

(a) this Chapter, other than section 55 (guidance), and

(b) section [*section to be inserted by amendment x (Report on the development of tourism in Wales)*].'.

Adran 60, tudalen 38, llinell 12, hepgorer 'Bennod hon, heblaw adran 55 (canllawiau), i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol' a mewnosoder—

'darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf hon i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol—

(a) y Bennod hon, heblaw adran 55 (canllawiau), a

(b) adran [*adran i'w mewnosod gan welliant x (Adroddiad ar ddatblygiad twristiaeth yng Nghymru*)]'.

**Samuel Kurtz** **107**

Section 60, page 38, line 14, leave out 'except that—

(a) sections 16, 24, 25(2) and (3), 27, 37 and 38, come into force on 5 March 2029 if they have not come into force before that day, and

(b) the remaining provisions of this Act come into force on 4 March 2030 if they have not come into force before that day.

(3) The Welsh Ministers may by order made by Welsh statutory instrument amend the date referred to in subsection (2)(b) to a day that is no later than 2 years after that day' and insert—

'subject to the Senedd approval procedure'.

Adran 60, tudalen 38, llinell 15, hepgorer 'ac eithrio—

(a) adrannau 16, 24, 25(2) a (3), 27, 37 a 38, a ddaw i rym ar 5 Mawrth 2029 os nad ydynt wedi dod i rym cyn y diwrnod hwnnw, a

(b) gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon, a ddaw i rym ar 4 Mawrth 2030 os nad ydynt wedi dod i rym cyn y diwrnod hwnnw.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol Cymreig ddiwygio'r dyddiad y cyfeirir ato yn is-adran (2)(b) i ddiwrnod nad yw'n hwyrach na 2 flynedd ar ôl y diwrnod hwnnw' a mewnosoder—

'yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd'.